***Statws** This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2009 Rhif 1558 (Cy.153)

# GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU

## Gorchymyn Ymddiriedolaethau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Trosglwyddo Staff, Eiddo, Hawliau a Rhwymedigaethau) (Cymru) 2009

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *24 Mehefin 2009* |
| *Yn dod i rym - -* | *1 Hydref 2009* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adrannau 18 a 203 (9) a (10) o baragraff 29 o Atodlen 3 i Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006(**1**) ar ôl cwblhau ymgynghoriad statudol fel y'i rhagnodir o dan baragraff 29(4) o Atodlen 3 i'r Ddeddf honno(**2**) yn gwneud Gorchymyn hwn.

**Enwi, Cychwyn a Dehongli**

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Ymddiriedolaethau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Trosglwyddo Staff, Eiddo, Hawliau a Rhwymedigaethau) (Cymru) 2009 a daw i rym ar 1 Hydref 2009.

(2) Yn y Gorchymyn hwn;

ystyr "Bwrdd newydd perthnasol" ("*relevant new Board*") yw mewn perthynas â hen ymddiriedolaeth a bennir yng ngholofn 1 o'r Atodlen, y Bwrdd newydd a bennir yng ngholofn 2 o'r Atodlen honno;

ystyr "Byrddau newydd" ("*new Boards*") yw'r Byrddau Iechyd Lleol a restrir yng ngholofn 2 o'r Atodlen;

ystyr "dyddiad trosglwyddo" ("*transfer date*") yw 1 Hydref 2009; ac

ystyr "hen ymddiriedolaethau" ("*old trusts*") yw Ymddiriedolaethau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol a restrir yng ngholofn 1 o'r Atodlen.

(**1**) 2006. p.42.
(**2**) Rheoliadau Ymddiriedolaethau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ymgynghori ar Sefydlu a Diddymu) 1996 (O.S. 1996/653 sy'n parhau i gael ei effaith yn rhinwedd paragraff 1(2) o Atodlen 2 i Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Darpariaethau Canlyniadol) 2006.

**Trosglwyddo cyflogeion i'r trosglwyddai**

**2.**—(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (3), trosglwyddir contract cyflogaeth unrhyw berson a oedd yn union cyn y dyddiad trosglwyddo yn cael ei gyflogi gan yr hen ymddiriedolaeth i'r Bwrdd newydd perthnasol ar y dyddiad trosglwyddo a bydd y contract hwnnw yn effeithiol fel petai wedi ei wneud yn wreiddiol rhwng y person a gyflogwyd felly a'r Bwrdd newydd perthnasol.

(2) Heb leihau effaith paragraff (1) uchod —

(a) trosglwyddir pob hawl, pŵer, dyletswydd a rhwymedigaeth o dan neu mewn cysylltiad â chontract y mae'r paragraff hwnnw yn gymwys iddo, yn rhinwedd yr erthygl hon, i'r Bwrdd newydd perthnasol ar y dyddiad trosglwyddo;

(b) bernir bod unrhyw beth a wnaed cyn y dyddiad hwnnw gan, neu mewn perthynas â'r hen ymddiriedolaeth o ran y contract hwnnw neu'r cyflogai hwnnw, wedi ei wneud gan neu mewn perthynas â'r Bwrdd newydd perthnasol.

(3) Nid yw paragraffau (1) na (2) yn lleihau effaith hawl unrhyw gyflogai i ddod â'i gontract cyflogaeth i ben os gwneir newid sylweddol er gwaeth i'w amodau gwaith, ond ni fydd y cyfryw hawl yn codi yn unig ar sail y newid o ran cyflogwr y mae'r erthygl hon yn ei beri.

**Trosglwyddo eiddo, hawliau a rhwymedigaethau**

**3.** Ar y dyddiad trosglwyddo trosglwyddir pob eiddo, ac i'r graddau na chyfeirir atynt yn erthygl 2, bob hawl a rhwymedigaeth sydd gan yr hen ymddiriedolaethau i'r Byrddau newydd perthnasol, gan gynnwys heb gyfyngiad y ddyletswydd i lunio cyfrifon gweddilliol yr hen ymddiriedolaethau ac i gyflawni pob dyletswydd statudol sy'n perthyn i'r cyfrifon hynny.

*Edwina Hart*
Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru

24 Mehefin 2009

## YR ATODLEN

Erthygl 1(2)

| *Colofn 1* **Hen Ymddiriedolaeth** | *Colofn 2* **Bwrdd Newydd(3)** |
|---|---|
| Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Cwm Taf(**4**) | Bwrdd Iechyd Lleol Cwm Taf |
| Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Hywel Dda(**5**) | Bwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda |
| Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg(**6**) | Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg |
| Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Gogledd Cymru(**7**) | Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr |
| Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Gogledd-orllewin Cymru(**8**) | Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr |
| Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Gofal Iechyd Gwent(**9**) | Bwrdd Iechyd Lleol Aneurin Bevan |
| Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Caerdydd a'r Fro(**10**) | Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Caerdydd a'r Fro |

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn darparu ar gyfer trosglwyddo ar 1 Hydref 2009 staff, eiddo, hawliau a rhwymedigaethau o Ymddiriedolaethau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol a ddiddymwyd gan Orchymyn Ymddiriedolaethau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Diddymu) (Cymru) (O.S. 2009/1306 (Cy.117)) i'r Byrddau Iechyd Lleol newydd a sefydlwyd gan Orchymyn Byrddau Iechyd Lleol (Sefydlu a Diddymu) (Cymru) 2009 (O.S. 2009/778 (Cy. 66)).

(**3**) **Sefydlwyd yn rhinwedd Gorchymyn y Byrddau Iechyd Lleol (Sefydlu) (Cymru) 2009 (O.S. 2009/ 778 (Cy. 66 )).**
(**4**) O.S. 2008/717 (Cy. 76).
(**5**) O.S. 2008/712 (Cy. 73).
(**6**) O.S. 2008/716 (Cy. 75).
(**7**) O.S. 2008/1648 (Cy. 160).
(**8**) O.S. 1998/3314.
(**9**) O.S. 1998/3321.
(**10**) O.S. 1999/3451.